Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Branas

Branas Isaf
Llandrillo
Corwen
Sir Ddinbych
LL21 0TA

Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2026

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant

yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Branas

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | The Branas School / Ysgol Branas |
| Statws y perchennog | Branas Isaf, is-gwmni i CareTech (Holdings) Ltd |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Arbennig annibynnol |
| Darpariaeth breswyl? | Nac oes |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 16 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 16 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 01/06/2022 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 09/03/2026 |

### Cyd-destun yr ysgol:

Mae Ysgol Branas yn darparu addysg, gofal a therapi arbenigol ar gyfer bechgyn 11-18 oed sydd ag anghenion cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl cymhleth ac anawsterau dysgu cymedrol. Mae'n cynnig darpariaeth hynod arbenigol i ddisgyblion ag anghenion cymhleth ac sydd wedi cael profiadau bywyd niweidiol a thrawmatig sylweddol.

Mae 16 disgybl yn yr ysgol ar hyn o bryd. Mae disgyblion yn derbyn gofal gan awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr, ac yn byw mewn cartrefi plant sy'n cael eu gweithredu gan CareTech. Mae gan saith disgybl gynllun addysg, iechyd a gofal (CAIG). Mae pob un o'r disgyblion yn siarad Saesneg fel eu hiaith gyntaf.

Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd er mis Gorffennaf 2024 a chynhaliwyd arolygiad monitro diwethaf yr ysgol ym mis Mawrth 2024.

## Crynodeb

Mae Ysgol Branas yn darparu amgylchedd dysgu croesawgar lle mae disgyblion yn teimlo’n ddiogel a’u bod yn cael eu cefnogi. Mae llawer o ddisgyblion yn ymuno â’r ysgol ar ôl profi tarfu yn eu haddysg flaenorol. Trwy arferion cyson, disgwyliadau clir a chymorth amlddisgyblaethol cryf, mae disgyblion yn gwella’u presenoldeb, eu hymddygiad a’u hymgysylltiad â dysgu.

Mae cwricwlwm yr ysgol yn hynod ymatebol i fannau cychwyn, diddordebau ac anghenion unigol disgyblion. Mae dysgu yn cyfuno pynciau yn yr ystafell ddosbarth gyda mynediad rheolaidd at y gymuned ehangach, sy’n helpu disgyblion i feithrin eu gwybodaeth a’u medrau mewn ystod o gyd-destunau. Dros gyfnod, mae disgyblion yn datblygu medrau mewn llythrennedd, rhifedd, technoleg ddigidol a gwyddoniaeth. Cânt eu cefnogi i gymhwyso’u dysgu, er enghraifft cysylltu syniadau o wyddoniaeth â thechnoleg neu ddefnyddio medrau mathemategol mewn gweithgareddau ymarferol. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 4, mae llawer o ddisgyblion yn ennill ystod o gymwysterau ac achrediadau, ac yn symud ymlaen i addysg bellach a hyfforddiant.

Mae gweithgareddau fel dringo, caiacio, ymweliadau addysgol ac ymgysylltu â’r gymuned yn helpu disgyblion i ddatblygu gwydnwch, gwaith tîm a medrau datrys problemau. Mae’r profiadau cyfoethog hyn yn darparu cyfleoedd ar gyfer datblygiad personol ac yn paratoi disgyblion ar gyfer bywyd ar ôl yr ysgol.

Un o gryfderau nodedig yr ysgol yw’r cydweithio agos rhwng staff addysg, gofal, a therapiwtig. Defnyddir ystod eang o ddata asesu i lywio cynlluniau dysgu unigol, ac mae’r dull integredig hwn yn helpu staff i ddarparu cymorth cyson i ddiwallu anghenion cymorth emosiynol ac ymddygiadol disgyblion. O ganlyniad, mae disgyblion yn gynyddol fodlon ac yn gallu cymryd rhan mewn gwersi a gweithgareddau ehangach yr ysgol.

Mae arweinwyr wedi sefydlu gweledigaeth glir yn canolbwyntio ar gynhwysiant, parch ar y ddwy ochr a datblygu annibyniaeth. Mae disgyblion yn cyfrannu’n weithgar at fywyd yr ysgol trwy rannu eu barn a chymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau, sy’n eu helpu i ddatblygu ymdeimlad o gyfrifoldeb a pherthyn o fewn cymuned yr ysgol.

Mae arweinwyr wedi profi heriau o ran recriwtio a chadw athrawon mewn nifer fach o feysydd pwnc, sydd wedi cael effaith andwyol ar gysondeb addysgu a dysgu ar draws yr ysgol. Mae arweinwyr yn dadansoddi perfformiad yr ysgol ac yn rhoi cynlluniau strwythuredig ar waith i gefnogi gwelliant. Fodd bynnag, nid yw meini prawf llwyddiant yn gyson fesuradwy, ac ni chaiff llinellau amser a chyfrifoldebau eu diffinio’n gyson. O ganlyniad, ni chaiff effaith y camau gweithredu ar ddeilliannau disgyblion ei gwerthuso’n systematig ac nid yw dysgu proffesiynol sy’n canolbwyntio ar wella addysgu a dysgu wedi’i ddatblygu’n ddigonol.

## Prif werthusiad

Mae Ysgol Branas yn darparu amgylchedd dysgu croesawgar a chefnogol lle mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel. Mae staff yn datblygu perthnasoedd parchus â disgyblion sy'n cefnogi ymddygiad cadarnhaol ac ymgysylltiad â dysgu. Mae disgyblion yn falch o'u hysgol ac yn mynd ati i gyfrannu at fywyd yr ysgol.

### Cyflawniad a dilyniant

Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd arbennig o gryf yn gwella'u hymgysylltiad a'u presenoldeb. Mae hyn yn gryfder nodedig gan fod bron pob un o'r disgyblion yn cyrraedd yr ysgol ar ôl cyfnodau sylweddol o darfu yn eu haddysg.

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n cael ei lywio gan asesiadau gwaelodlin pynciau unigol priodol, ac yn ymatebol i anghenion a diddordebau disgyblion. Mae'r cwricwlwm yn cyfuno pynciau yn yr ystafell ddosbarth gyda ffocws ar ddysgu yn y gymuned a dysgu trwy brofiad.

At ei gilydd, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn mewn ystod o fedrau, yn enwedig mewn llythrennedd, rhifedd, cymhwysedd digidol a gwyddoniaeth. Mae bron pob un o'r disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 yn ennill ystod o gymwysterau ac achrediadau, yn cynnwys cymwysterau TGAU. Yn y flwyddyn academaidd ddiwethaf, aeth bron pob un o'r disgyblion ymlaen yn llwyddiannus i addysg bellach, er enghraifft ar gyrsiau galwedigaethol lefel un, fel gofal anifeiliaid a gosod brics.

Mewn gwersi Saesneg, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu gallu i ysgrifennu'n gydlynus ac yn llunio testunau estynedig hwy dros gyfnod, tra'n dangos medrau meddwl ar lefel uwch hefyd wrth drafod cymeriadau a chymharu testunau. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos datblygiad graddol medrau digidol, yn cynnwys deall diogelwch ar-lein a rheoli cynnwys. Mae disgyblion yn trosglwyddo gwybodaeth rhwng pynciau, er enghraifft cysylltu dysgu am donnau radio mewn ffiseg â thrafodaethau am Wi-Fi mewn TG.

Dros gyfnod, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf mewn rhifedd, a chânt eu cefnogi i gyflawni ystod o ddysgu achrededig o lefel mynediad i TGAU. Yn ychwanegol, mae athrawon ar draws meysydd y cwricwlwm yn gweithio gyda'i gilydd i gynllunio cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso ac ymestyn eu gwybodaeth. Er enghraifft, mae'r athro mathemateg yn defnyddio data a goladwyd ar ddiwrnod mabolgampau i ddisgyblion gyfrifo cyfartaleddau. Mewn gwersi gwyddoniaeth, mae disgyblion yn dysgu am amser a phellter ac yn mynd ymlaen i ymestyn eu dysgu mewn mathemateg i gyfrifo cyflymdra.

Mewn gweithgareddau ymarferol a chreadigol, mae disgyblion yn datblygu medrau cyfathrebu a chynllunio cadarn, er enghraifft wrth adeiladu tyrbin gwynt mewn gwyddoniaeth neu drefnu perfformiadau cerddorol.

O fewn cynigion cwricwlwm ehangach, mae disgyblion yn datblygu gwydnwch, gwaith tîm a medrau datrys problemau. Mae hyn yn gryfder arbennig yn yr ysgol.

### Ciplun: Cyfoethogi'r cwricwlwm trwy ddysgu rheolaidd yn yr awyr agored ac yn y gymuned

Mae Ysgol Branas yn darparu cwricwlwm cyfoethogi hynod ddifyr sy'n ymestyn dysgu y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth. Mae disgyblion yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn gwersi addysg gorfforol mewn canolfan hamdden leol ac yn cyfranogi mewn ystod eang o weithgareddau dysgu yn yr awyr agored, yn cynnwys dringo, caiacio a 'weaselling'. Maent hefyd yn cymryd rhan mewn ymweliadau addysgol ag amgueddfeydd ac adeiladau hanesyddol i gefnogi eu dysgu ym mhynciau'r dyniaethau, ac yn manteisio ar y gymuned ehangach ar gyfer gweithgareddau ystyrlon a phwrpasol i wella lles a meithrin medrau bywyd.

Mae'r ysgol yn mabwysiadu dull hyblyg ac addasol, gan ddarparu profiadau sy'n ymateb yn dda i anghenion a diddordebau unigol disgyblion. Trwy'r gweithgareddau hyn, mae disgyblion wedi eu cymell i ddatblygu medrau eang, yn cynnwys datrys problemau, cyfathrebu a gwaith tîm.

Mae'r cwricwlwm estynedig hwn yn cefnogi datblygiad personol disgyblion trwy eu galluogi i wynebu heriau hylaw, dysgu trwy brofi a methu, ac yn datblygu strategaethau i oresgyn anawsterau. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu gwydnwch, hunanddibyniaeth well a rheoleiddio emosiynol gwell. I lawer o ddisgyblion, mae'r ymddiriedaeth a roddir ynddynt i reoli amgylcheddau newydd ac ymddwyn yn barchus mewn mannau cyhoeddus yn llwyddo i feithrin eu hunan-gred ac yn darparu sylfeini cadarn ar gyfer dysgu pellach.

Ers yr arolygiad craidd diwethaf, mae arweinwyr wedi ehangu cyfleoedd ar gyfer disgyblion hŷn sydd wedi cwblhau arholiadau diwedd blwyddyn ac yn paratoi i bontio o'r ysgol. Mae disgyblion yn elwa ar ddatblygu medrau bywyd pwysig trwy weithgareddau sy'n cynnwys ymweliadau, addysg yn yr awyr agored, chwaraeon, cymwysterau cyrsiau byr fel gwyddoniaeth, mathemateg a ffotograffiaeth, gwirfoddoli yn y gymuned ehangach, a lleoliadau gwaith rhan-amser.

## Addysgu ac asesu

Mae bron pob un o'r athrawon yn addasu addysgu yn dda i gynorthwyo disgyblion i wneud cynnydd mewn meysydd medrau pwysig neu arholiadau ffurfiol. Er enghraifft, mae

addysgu mewn Saesneg yn canolbwyntio'n gryf ar ddatblygu medrau a strategaethau arholi, tra bod gwersi TG yn cynorthwyo disgyblion yn llwyddiannus i ddatblygu defnydd diogel a chyfrifol o dechnoleg, fel adnabod gwybodaeth ddibynadwy a sut i ddelio â seiberfwlio.

Mae bron pob un o'r athrawon yn sefydlu ffiniau clir ac yn atgyfnerthu'r rhain yn gadarnhaol, gan gyfrannu at amgylcheddau dysgu digynnwrf a phwrpasol. At ei gilydd, caiff gwersi eu cynllunio'n drefnus, ac maent yn diwallu anghenion emosiynol ac ymddygiadol disgyblion, ac yn bodloni eu diddordebau'n dda. Mae'r meintiau dosbarthiadau bach yn golygu bod staff yn darparu llawer o gymorth ar gyfer disgyblion unigol. Fodd bynnag, mae cynllunio i ddiwallu anghenion dysgu ychwanegol penodol disgyblion yn llai datblygedig ac mae hyn yn arwain at ddefnydd cyfyngedig o strategaethau arbenigol mewn gwersi.

Bron ym mhob un o'r gwersi, mae athrawon yn rhoi adborth ac arweiniad clir ar lafar ar sut gall disgyblion wella'u gwaith. Mewn mathemateg, mae adborth yn hynod effeithiol wrth sgaffaldio'r camau nesaf mewn dysgu, ac mae gwaith disgyblion yn dangos cynnydd dros gyfnod. Mewn cerddoriaeth ac addysg yn yr awyr agored, mae athrawon yn dangos gwybodaeth bynciol gref ac yn rhoi adborth cryno sy'n helpu disgyblion i wella'u medrau.

Yn y rhan fwyaf o wersi, mae athrawon yn defnyddio holi effeithiol ac esboniadau clir i helpu disgyblion i alw gwybodaeth flaenorol i gof a'i chymhwyso i ddysgu newydd. Mae bron pob un o'r staff yn defnyddio canmoliaeth yn bwrpasol i wobrwyo disgyblion a dathlu eu cyflawniadau. Mae'r adborth hwn yn helpu disgyblion i ddatblygu ymdeimlad o falchder yn eu dysgu. Fodd bynnag, mae anghysondebau mewn addysgu a achoswyd gan drosiant o ran staff addysgu mewn ychydig o feysydd pwnc wedi cael effaith negyddol ar gynnydd disgyblion.

Mae athrawon yn asesu disgyblion yn rheolaidd ac yn defnyddio hyn i lywio cynllunio yn y dyfodol. Mae'r ysgol wedi cyflwyno ymyriadau targedig yn ddiweddar i helpu disgyblion i wneud cynnydd gwell mewn meysydd medrau allweddol fel darllen. Sefydlwyd y rhain yn ddiweddar, ac maent yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar gynnydd a hyder disgyblion.

## Cymorth lles ac ymgysylltiad integredig

Mae arweinwyr wedi creu model gofal, addysg a therapiwtig integredig ac mae'r dull cyfannol hwn yn galluogi disgyblion i deimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu cefnogi. Mae rhannu arbenigedd a gwybodaeth yn nodwedd gref o'r dull cydgysylltiedig hwn sy'n galluogi staff i weithio'n effeithiol i gefnogi lles ac ymgysylltiad disgyblion. Er enghraifft, mae staff addysg yn darparu briffiau dyddiol i dimau gofal a therapiwtig ar les a chyflawniadau disgyblion, a digwyddiadau sydd ar ddod. Yn yr un modd, mae arbenigedd

therapiwtig yn llywio dulliau addysgu a dysgu ac mae rheolwyr gofal yn rhoi gwybod i'r ysgol yn gyson am faterion sy'n berthnasol i ddisgyblion yn yr ysgol.

At ei gilydd, mae disgyblion yn mynychu'n dda. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu ac yn ymgysylltu'n dda mewn gwersi gan ymateb yn dda i'r arferion clir a'r disgwyliadau cyson a ddaw yn sgil y dull integredig hwn. Mae disgyblion yn dangos chwilfrydedd a diddordeb mewn dysgu ac yn hyderus wrth siarad am eu gwaith a'u diddordebau. Mae disgyblion yn dangos balchder yn eu gwaith ac yn hapus i drafod eu dysgu, yn cynnwys gydag ymwelwyr â'r ysgol.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo cyfleoedd rheolaidd i ddathlu ymdrech, presenoldeb ac agweddau cadarnhaol at ddysgu. Mae'r cyfleoedd hyn yn annog disgyblion i werthfawrogi eu llwyddiannau ac yn datblygu ymdeimlad cryfach o berthyn o fewn cymuned yr ysgol. Mae staff o'r ysgol a phreswylfeydd disgyblion yn defnyddio ymagweddau cyson at les disgyblion, rheoli ymddygiad ac arferion ystafell ddosbarth, gan helpu disgyblion i ddeall disgwyliadau. Mae gan yr ysgol systemau cadarn ar gyfer rheoli ac adolygu achosion o ymddygiad heriol. Dros gyfnod, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwella'u hymgysylltiad ac yn gostwng lefelau ymddygiad heriol.

Mae gan yr ysgol a'r ddarpariaeth breswyl ehangach ddull trylwyr ar gyfer rheoli risg. Mae staff yn rheoli asesiadau risg disgyblion unigol yn ofalus i alluogi disgyblion i fanteisio ar gwricwlwm eang, yn cynnwys gweithgareddau yn y gymuned, yn ddiogel. Trwy waith amlddisgyblaethol Branas Isaf, gall staff gael ystod eang o wybodaeth bwysig i sicrhau cymorth cadarnhaol a chyson i ddiwallu anghenion cymhleth disgyblion. Fodd bynnag, nid yw gwybodaeth allweddol ar gyfer staff bob amser yn ddigon cryno nac ymarferol i arwain addysgu a dysgu.

## Arweinyddiaeth

Ers yr arolygiad diwethaf, mae arweinyddiaeth yr ysgol wedi newid yn sylweddol. Yn ystod y cyfnod hwn, mae arweinwyr wedi sefydlu amgylchedd dysgu sefydlog gyda gweledigaeth glir ac ethos o gynhwysiant, parch ar y ddwy ochr ac annibyniaeth a ddeellir yn dda gan staff ar draws yr ysgol a'r sefydliad ehangach. O ganlyniad, mae'r cwricwlwm a'r systemau bugeiliol yn adlewyrchu'r bwriadau hyn ac mae disgyblion yn datblygu medrau a gwybodaeth ar gyfer bywyd y tu hwnt i'r ysgol.

Cefnogir y pennaeth gan ddirprwy bennaeth a thîm o chwech o athrawon allweddol. Maent yn cael eu goruchwylio gan yr unigolyn sy'n gyfrifol am yr ysgol, sydd hefyd yn rheoli gwasanaethau gofal a chlinigol ehangach Branas Isaf. Mae arweinwyr wedi cyflwyno systemau sicrhau ansawdd newydd;  er enghraifft, maent yn monitro addysgu a dysgu trwy arsylwadau gwersi, teithiau dysgu a dadansoddi data asesu sy'n eu galluogi i nodi blaenoriaethau priodol ar gyfer gwella'r ysgol. Fodd bynnag, nid yw cynllunio gwelliant

bob amser yn cynnwys meini prawf llwyddiant na mesurau atebolrwydd clir i werthuso effaith ar ddeilliannau disgyblion. Hefyd, mewn ychydig o feysydd, nid yw systemau a phrosesau yn galluogi arweinwyr i gael gwybodaeth a nodi gwelliannau yn rhwydd. Er enghraifft, mewn meysydd pwysig fel adolygu cydymffurfiad yr ysgol â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024.

Mae arweinwyr wedi sefydlu diwylliant diogelu cadarn. Mae staff yn deall eu cyfrifoldebau i gadw disgyblion yn ddiogel ac mae arweinwyr yn ymateb yn brydlon i unrhyw bryderon.

Mae gan arweinwyr brosesau addas ar gyfer arfarniad staff sy’n canolbwyntio ar les, cynnydd disgyblion a gwaith tîm. Fodd bynnag, nid yw’r defnydd o ddysgu proffesiynol i yrru gwelliannau mewn addysgu a dysgu wedi’i ddatblygu’n ddigonol.

Mae arweinwyr yn defnyddio adborth disgyblion yn effeithiol i gyfrannu at wella’r ysgol ac mae gwrando ar farn disgyblion yn nodwedd gref o’r ysgol. Er enghraifft, bu’r Cyngor Ysgol yn dylunio logo ysgol a gwisg ysgol newydd. Mae disgyblion yn cymryd rhan mewn etholiadau democrataidd ar gyfer rolau allweddol, ac mae pob un o’r disgyblion yn gwasanaethu ar is-bwyllgorau, yn cynnwys ar gyfer mentrau amgylcheddol, chwaraeon, medrau digidol a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn. Mae’r dull cynhwysol hwn yn cynorthwyo pob disgybl i brofi rolau arwain a dylanwadu ar fywyd yr ysgol a digwyddiadau fel Diwrnod y Llyfr, Dydd Gŵyl Dewi ac ymwybyddiaeth o ddathliadau diwylliannol fel Ramadan.

## Cydymffurfio â'r rheoliadau ar gyfer cofrestru

Caiff arolygiadau ysgolion annibynnol eu llywodraethu gan Ddeddf Addysg 2002 a rheoliadau cysylltiedig: Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024. Mae'r rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ysgol annibynnol fodloni safon briodol yn y meysydd canlynol:

### Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol

Ar sail yr arolygiad hwn, nid oes tystiolaeth nad yw'r ysgol yn cydymffurfio â'r safon hon.

### Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion

Ar sail yr arolygiad hwn, nid oes tystiolaeth nad yw'r ysgol yn cydymffurfio â'r safon hon.

### Lles, iechyd a diogelwch disgyblion

Ar sail yr arolygiad hwn, nid oes tystiolaeth nad yw'r ysgol yn cydymffurfio â'r safon hon.

### Addasrwydd perchnogion a staff

Ar sail yr arolygiad hwn, nid oes tystiolaeth nad yw'r ysgol yn cydymffurfio â'r safon hon.

### Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion

Ar sail yr arolygiad hwn, nid oes tystiolaeth nad yw'r ysgol yn cydymffurfio â'r safon hon.

### Darparu gwybodaeth

Ar sail yr arolygiad hwn, nid oes tystiolaeth nad yw'r ysgol yn cydymffurfio â'r safon hon.

### Y modd yr eir i'r afael â chwynion

Ar sail yr arolygiad hwn, nid oes tystiolaeth nad yw'r ysgol yn cydymffurfio â'r safon hon.

## Diogelu

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud tri argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella, sef:

A1 Gwella sefydlogrwydd a chysondeb yr addysgu

A2 Cryfhau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant i ganolbwyntio'n gliriach ar effaith fesuradwy ar ddeilliannau disgyblion

A3 Cryfhau dysgu proffesiynol i gael ffocws cyson ar addysgu a dysgu

## Beth sy'n digwydd nesaf

Mae Estyn yn cynghori'r perchennog i ddiwygio'i gynllun datblygu presennol i ddangos pa gamau y mae'r ysgol yn bwriadu eu cymryd i ymateb i'r argymhellion. Hefyd, byddai'n ddoeth dosbarthu'r cynllun hwn, neu grynodeb ohono, i'r holl rieni / gofalwyr yn yr ysgol.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o’r holiadur i rieni / gofalwyr a’r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a’r staff cymorth trwy eu hymatebion i’w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a’i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â’r pennaeth, y llywodraethwyr / perchnogion, arweinwyr ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a’r pwyllgor eco
- yn ymweld â gwersi ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi dysgu’r disgyblion
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso’r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella’r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau’r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a’r corff llywodraethol (lle bo’n briodol), gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi’r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau’r arolygiad ochr yn ochr â’r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag adran 163 Deddf Addysg 2002. Prif ddiben arolygu o dan yr adran hon yw adrodd ar gydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024. Mewn ysgolion sy'n darparu addysg feithrin nas cynhelir, mae'r adroddiad hwn hefyd yn bodloni gofynion Atodlen 26 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: http://www.estyn.llyw.cymru/

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a)  mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  14/05/2026